# Ein Cynllun Cydraddoldeb 2024 tan 2028

Sut rydyn ni'n bwriadu sicrhau bod popeth yn gydradd i bawb

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun yma


Rhagarweiniad .......................................................................... 2

Sut rydyn ni'n bwriadu sicrhau bod popeth yn deg ac yn gydradd i bawb ........................................................................ 3

Dyma'r hyn rydyn ni am ei wneud ............................................ 5

Sut byddwn ni'n gwybod bod ein cynllun ni'n gweithio?............ 8





Llyfryn Hawdd ei Ddarllen

## Rhagarweiniad

RHONDDA CYNON TAF

Ni yw eich Cyngor Lleol.




Rydyn ni eisiau sicrhau bod bywyd yn deg ac yn gydradd i bawb.



Dydy hynny ddim yn beth hawdd i'w wneud.



Rydyn ni'n gwybod dydy bywyd ddim yn deg nac yn gydradd i rai pobl.




Rydyn ni wedi paratoi cynllun er mwyn dangos i chi sut rydyn ni'n mynd i wneud pethau'n deg i bawb.

## Sut rydyn ni'n bwriadu sicrhau bod popeth yn deg ac yn gydradd i bawb




Mae ein cynllun ni ar gyfer y 4 blynedd nesaf.




Rhaid i ni wneud beth mae rhai deddfau yn dweud wrthon ni. Enw'r deddfau yma yw Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.




Mae'r cyfreithiau yma'n sicrhau ein bod ni'n diogelu pawb ac yn trin pawb yn deg ac yn gydradd.



Rydyn ni'n gwneud llawer o waith i wneud pethau'n deg ac yn gydradd i bobl lle rydyn ni'n byw, ac i'r bobl sy'n gweithio i'r Cyngor.




Mae angen gwneud mwy o bethau hefyd.

Dyma'r hyn rydyn ni am ei wneud



Byddwn ni'n sicrhau bod y Cyngor yn ystyried ei fod e'n gweithredu mewn modd teg a chydradd i bawb wrth wneud penderfyniadau.

Byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Byddwn ni'n gwneud pethau mae Llywodraeth Cymru'n eu gofyn er mwyn sicrhau bod pethau'n deg ac yn gydradd i bawb.




Byddwn ni'n gwirio ein gwaith sawl gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn deg ac yn gydradd i bawb.



Byddwn ni'n siarad â phobl Rhondda Cynon Taf er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu mewn modd teg a chydradd i bawb.




Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n trin ac yn talu gweithwyr newydd mewn modd teg a chydradd.



Byddwn ni'n sicrhau bod y bobl sy'n gweithio i'r Cyngor yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd a bod y Cyngor yn lle teg a chydradd i weithio iddo.



Byddwn ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod cyflog ein gweithwyr yn deg.




Byddwn ni'n atal pobl os nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd teg a chydradd tuag at bobl sy'n gweithio i'r Cyngor.



Mae pobl sy'n gweithio i'r Cyngor wedi dweud wrthon ni fod y Cyngor yn gwneud pethau da i'w staff ond bod modd i'r Cyngor wneud mwy.




Byddwn ni'n dysgu'r bobl sy'n gweithio i'r Cyngor gan ddweud wrthyn nhw pam mae'n bwysig i fod yn deg ac yn gydradd.




Byddwn ni'n sicrhau bod rheolau'r Cyngor yn deg ac yn gydradd i bawb.


## Sut byddwn ni'n gwybod bod ein cynllun ni'n gweithio?



Byddwn ni'n gofyn i weithwyr y Cyngor wirio eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn gydradd.



Byddwn ni'n dweud wrth y rheiny sy'n arwain y Cyngor sut rydyn ni'n mynd ati i geisio gwneud pethau'n deg ac yn gydradd 4 gwaith y flwyddyn.




Byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad blynyddol, sy'n dweud wrth bawb am bopeth rydyn ni wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod pethau'n deg ac yn gydradd i bawb.




Diolch am ddarllen ein hadroddiad.